

Crynodeb Gwirio Ansawdd
Enw'r gwasanaeth:
Canolfan Ddeintyddol St Teilo
Dyddiad y gweithgarwch:
20 Gorffennaf 2022

Dyddiad cyhoeddi: 8 Medi 2022



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

Crynodeb Gwirio Ansawdd

Ein dull gweithredu

Ymgwymerodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) â gwiriad ansawdd o bell o Ganolfan Ddeintyddol St Teilo fel rhan o'i rhaglen o waith sicrwydd. Mae Canolfan Ddeintyddol St Teilo yn darparu gwasanaethau deintyddol cyffredinol ar gyfer cleifion y GIG a chleifion preifat yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Caerdydd.

Mae gwiriadau ansawdd AGIC yn rhan o ddull newydd wedi'i deilwra ar gyfer gwaith sicrwydd ac maent yn un o nifer o ffyrdd y mae'n archwilio sut mae gwasanaethau gofal iechyd yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 y GIG a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017.

Rhoddir adborth i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd y gwiriad ansawdd, mewn ffordd sy'n cynorthwyo dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Ciplun yw gwiriadau ansawdd o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau gofal iechyd. Cânt eu cynnal oddi ar y safle'n gyfan gwbl ac maent yn canolbwyntio ar dri maes allweddol: atal a rheoli heintiau, llywodraethu (yn arbennig ynghylch staffio), a'r amgylchedd gofal. Mae'r gwaith yn archwilio trefniadau sydd ar waith i ddiogelu staff a chleifion rhag COVID-19, gan ein galluogi i ddarparu cyngor gwella cyflym a chefnogol ar weithrediad diogel gwasanaethau yn ystod y pandemig. Mae rhagor o wybodaeth am ein dull gweithredu ar gyfer sicrwydd ac arolygu ar gael [yma](#).

Gwnaethom siarad â'r unigolyn cyfrifol, Dr Anne Walker ar 20 Gorffennaf 2022 a rhoddodd wybodaeth a thystiolaeth i ni am y gwasanaeth. Gwnaethom ddefnyddio'r prif lwybrau ymholi canlynol:

- Pa newidiadau ydych chi wedi'u gweithredu yng ngoleuni COVID-19 i sicrhau y cynhelir safonau atal a rheoli heintiau?
- Sut ydych chi'n sicrhau y gall yr holl gleifion (gan gynnwys grwpiau sy'n agored i niwed / mewn perygl) gyrchu gwasanaethau mewn modd priodol a diogel?
- Sut ydych chi'n diwallu anghenion y cleifion Cymraeg wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Sut mae'r practis a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu wedi addasu yn ystod y cyfnod hwn o COVID-19?
- Sut ydych chi'n sicrhau bod cydraddoldeb a dull sy'n seiliedig ar hawliau'n cael eu hymgorffori ar draws y gwasanaeth?

Yr amgylchedd

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19 a sut mae'r gwasanaeth wedi cynllunio a rheoli'r amgylchedd gofal i sicrhau ei fod mor ddiogel â phosibl i gleifion, staff ac ymwelwyr.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys:

- Yr asesiadau a'r archwiliadau risg amgylcheddol diweddaraf
- Amserlenni a rhestrau gwirio glanhau

Gwnaethom hefyd holi cynrychiolwyr y gwasanaeth am y newidiadau y maent wedi'u gwneud i sicrhau bod y cleifion yn parhau i dderbyn gofal a thriniaeth yn unol â'u hanghenion.

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwelsom dystiolaeth bod y gwasanaeth wedi diweddarau polisiau a gweithdrefnau perthnasol i fodloni'r gofynion ychwanegol yn sgil y pandemig COVID-19. Gwnaethom hefyd holi'r unigolyn cyfrifol ynglŷn â'r newidiadau a wnaed i'r amgylchedd er mwyn galluogi cleifion i gael eu gweld yn ystod pandemig COVID-19 ac i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19 yn yr ardal oedd cymunol a'r ystafelloedd triniaeth.

Fe'n hysbyswyd fod amgylchedd y practis, ar ddechrau pandemig COVID-19, wedi cael ei asesu i gynorthwyo a gwella gwaith rheoli heintiau. Gostyngodd y practis nifer yr ymwelwyr drwy sicrhau mai dim ond cleifion ag apwyntiadau a drefnwyd ymlaen llaw a allai ymweld â'r practis. Mae cleifion yn mynychu ar eu pen eu hunain, oni bai fod angen gofalwr arnynt. Rhoddwyd system un i mewn, un allan ac un ffordd ar waith i osgoi croeshalogi. Yn y dderbynfa, gosodwyd sgriniau Perspex ar ddesg y dderbynfa i amddiffyn staff a chleifion, a defnyddiwyd rhwystr Perspex pan oedd mwy nag un person yn gweithio yn y dderbynfa.

Dywedwyd wrthym fod amserlenni glanhau wedi cael eu haddasu i alluogi glanhau amlach. Roedd yr holl eitemau nad oeddent yn hanfodol wedi'u symud o'r man aros a'r clinigau. Rhoddwyd gorchuddion plastig dros gadeiriau a chyfrifiaduron gan sicrhau eu bod yn hawdd eu glanhau. Mae hysbysiadau perthnasol yn cael eu harddangos mewn mannau amlwg y tu mewn a'r tu allan i'r adeilad yn hysbysu cleifion o'r mesurau presennol sydd ar waith; mae'r rhain yn cael eu diweddarau yn ôl yr angen.

Dywedwyd wrthym fod un ystafell bwrpasol ar ddechrau'r pandemig i gyflawni Gweithdrefnau sy'n Cynhyrchu Aerosol¹ fodd bynnag, gellir defnyddio pob ystafell glinig bellach gan fod fffaniau awyru ac echdynnu wedi'u gosod er mwyn hwyluso'r broses o gael gwared ar aer halogedig. Mae apwyntiadau wedi'u trefnu i alluogi cyfnod segur² digonol ac i alluogi digon o

¹ Mae gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn weithdrefn feddygol a all arwain at ryddhau gronynnau yn yr awyr (aerosolau) o'r system anadlu wrth drin rhywun yr amheuir ei fod, neu ei bod yn hysbys ei fod, yn dioddef o gyfrwng heintus a drosglwyddir yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy'r aer neu drwy ddefnyddio.

² Cyfnod segur yw'r amser segur yn yr ystafell driniaeth ar ôl cynnal gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol.

amser i ddiheintio'r ddeintyddfa rhwng cleifion.

Gofynnwyd sut mae'r practis yn diwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg a dywedwyd wrthym fod y rheolwr cofrestredig, sydd hefyd yn ddeintydd, yn siaradwr Cymraeg rhugl sy'n gallu darparu gwasanaethau a thriniaethau yn Gymraeg lle bo angen, a bod hyn bob amser yn cael ei gynnig i'r claf. Yn ogystal, mae'r holl hysbysiadau a gwybodaeth cyfeirio fel "Gweithio i Wella³" yn ddwyieithog.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

Atal a rheoli heintiau

Yn ystod y gwiriad ansawdd, gwnaethom ystyried sut mae'r gwasanaeth wedi ymateb i'r heriau a gyflwynwyd gan COVID-19, a pha mor llwyddiannus mae'n rheoli'r risg o heintiau er mwyn helpu i gadw cleifion, ymwelwyr a staff yn ddiogel.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Copi o'r archwiliad dihalogi diweddaraf yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a'r cynllun gweithredu i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd i'w gwella.
- Polisiâu rheoli heintiau
- Amserlenni a rhestrau gwirio glanhau
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o'r bath uwchsonig a gweithdrefnau glanhau â llaw
- Cofnodion gwiriadau dyddiol o'r peiriannau awtoclaf

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Cawsom ddogfennau amrywiol yn ymwneud ag atal a rheoli heintiau. Gwelsom dystiolaeth o amserlenni glanhau'r practis a gweithdrefn ar gyfer dihalogi offerynnau ac offer deintyddol. Cawsom yr archwiliad dihalogi Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 diweddaraf, ynghyd â chymau unioni a nodwyd ar gyfer meysydd yr oedd angen eu gwella.

Yn ogystal, cawsom gopiâu o'r polisi glanhau, rhestrau gwirio'r ddeintyddfa wedi'u cwblhau, cofnodion glanhau ar gyfer yr awtoclaf, a'r weithdrefn ar gyfer glanhau offerynnau ac offer deintyddol â llaw.

Dywedwyd wrthym fod systemau ar waith i sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau dros atal a rheoli heintiau, a'u bod yn eu cyflawni. Roedd yr holl bolisiâu a chyfathrebiadau'n cael eu rhannu â'r staff, ar gael ym mhob clinig, ac wedi'u llofnodi gan y staff perthnasol i gadarnhau eu bod wedi eu darllen a'u deall. Dywedwyd wrthym fod y practis yn diweddarau ei bolisiâu a'i weithdrefnau'n barhaus yn unol â diweddariadau a chyngor gan gyrrff allanol, gan gynnwys Prif Swyddog Deintyddol Cymru. Roedd y polisiâu a ddarparwyd i'w hadolygu yn gynhwysfawr ac yn unol â'r disgwyliadau.

³Gweithio i Wella yw'r broses ar gyfer codi pryderon neu gwynion yn GIG Cymru.

Cadarnhaodd yr unigolyn cyfrifol fod prosesau ar waith i ddiogelu cleifion a staff pan fydd gweithdrefn sy'n cynhyrchu aerosol yn cael ei chynnal. Mae galwad brysbennu⁴ i'r claf yn helpu i nodi'r offer y bydd eu hangen. Mae hwn yn cael ei baratoi ymlaen llaw er mwyn lleihau'r angen i staff fynd i mewn i'r ystafell driniaeth, neu'i gadael, yn ystod y weithdrefn. Mae amser segur bob amser yn cael ei roi yn y dyddiadur yn dilyn gweithdrefnau sy'n cynhyrchu aerosolau. Roedd y broses yn dilyn y canllawiau diweddaraf a gyhoeddwyd gan Brif Swyddog Deintyddol Cymru. Roedd yr holl staff yn cael gwybod am ddiweddariadau i ganllawiau trwy gyfarfodydd tîm rheolaidd.

Dywedwyd wrthym fod asesiadau risg yn cael eu cynnal yn ystod pob cam ac, er bod proses sgrinio cleifion cyn cyrraedd ar waith, y byddai cleifion wedyn yn cael eu hail-sgrinio ar ôl iddynt gyrraedd y practis. Pe bai claf yn dangos symptomau COVID-19, cadarnhaodd yr unigolyn cyfrifol y byddai'r staff yn gofyn i'r claf, os nad oedd yn achos brys, aildrefnu ei apwyntiad ac y byddent yn darparu cyngor os oedd y claf mewn poen.

Cawsom wybod fod y practis yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau y gellir cynnal triniaeth y claf yn ddiogel, a gellir pwysu a mesur hyn ar sail risg yn erbyn budd, a bod y practis yn gwneud pob ymdrech i sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, bod risgiau yn cael eu lliniaru er mwyn caniatáu i driniaethau ddigwydd.

Mae cyfarpar diogelu personol⁵ ar gael i staff a chleifion, ynghyd â gorsafoedd diheintio dwylo, ym mhob rhan o'r adeilad. Fe'n hysbyswyd bod staff wedi derbyn yr hyfforddiant diweddaraf ar ddefnyddio cyfarpar diogelu personol uwch, gan gynnwys y dull cywir o wisgo a diosg⁶ mewn man dynodedig, a chael gwared ar gyfarpar diogelu personol yn gywir. Dywedwyd wrthym fod y dull a ddefnyddiwyd ar gyfer hyfforddiant yn gymysgedd o sesiynau ar-lein a rhai ymarferol mewnol wyneb yn wyneb. Roedd nodiadau atgoffa gweledol fel posteri yn atgoffa staff o'r defnydd cywir o gyfarpar diogelu personol hefyd yn cael eu harddangos mewn mannau amlwg yn y practis gan gynnwys pob ystafell glinigol.

Dywedwyd wrthym fod yr holl staff yn gwisgo'r cyfarpar diogelu personol cywir, gan gynnwys masgiau FFP3⁷, gynau, ffedogau a feisorau, wrth drin cleifion. Roedd staff wedi eu mesur i sicrhau bod dau fath o fasg, gan gynnwys masgiau FFP3, yn eu ffitio, ac roedd hyn wedi'i gofnodi ar gyfer pob aelod o staff. Cadarnhawyd bod yr holl staff wedi derbyn asesiad risg COVID-19 manwl i asesu'r risgiau personol ynghlwm wrth barhau i gyflawni eu rôl yn ystod pandemig COVID-19. Holwyd staff hefyd ynglŷn â pha mor hyderus oeddent wrth ddefnyddio cyfarpar diogelu personol, ac roedd hyn hefyd wedi ei gofnodi. Mae cyflenwadau cyfarpar diogelu personol yn cael eu monitro a'u cofnodi gan berson dynodedig.

Ni nodwyd unrhyw feysydd i'w gwella.

⁴ Brysbennu yw'r broses o flaenoriaethu gofal cleifion yn seiliedig ar salwch/anaf, difrifoldeb, rhagolwg ac argaeledd adnoddau.

⁵ Mae cyfarpar diogelu personol yn cynnwys dillad amddiffynnol, menig, sbectol, masgiau neu wisgoedd neu offer eraill sydd wedi cael eu cynllunio i amddiffyn corff y gwisgwr rhag anaf neu haint.

⁶ Gwisgo - gwisgo cyfarpar diogelu personol; diosg - tynnu cyfarpar diogelu personol.

⁷ Cynlluniwyd anadlyddion FFP3 i ddiogelu'r sawl sy'n eu gwisgo rhag anadlu gronynnau bychain yn yr awyr a allai gynnwys feirysau.

Fel rhan o'r safon hon, gwnaeth AGIC holi cynrychiolwyr y gwasanaeth ynglŷn â'r ffordd y maent wedi addasu eu gwasanaeth mewn ymateb i effaith COVID-19. Gwnaethom ystyried a yw'r trefniadau rheoli yn sicrhau bod staff yn addas yn eu rolau ac wedi'u hyfforddi'n briodol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Roedd y dogfennau allweddol a adolygwyd gennym yn cynnwys y canlynol:

- Datganiad o Ddiben⁸
- Polisiâu/gweithdrefnau cydsyniad gwybodus
- Taflen wybodaeth i gleifion⁹
- Cynllun parhad busnes
- Cofnodion hyfforddiant gorfodol ar gyfer pob aelod o staff
- Archwiliad cardiau cofnod

Cafwyd y dystiolaeth gadarnhaol ganlynol:

Gwnaethom adolygu'r datganiad o ddiben a'r daflen wybodaeth i gleifion, a oedd yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Cawsom wybod bod y datganiad o ddiben yn cael ei adolygu'n flynyddol. Darparwyd sampl o'r polisiâu a'r gweithdrefnau sydd mewn grym hefyd. Roedd y rhai a ddarparwyd yn gynhwysfawr ac yn ddigonol ar gyfer y dibenion a fwriadwyd. Cadarnhaodd yr unigolyn cyfrifol fod gan staff y practis fynediad at yr holl bolisiau a gweithdrefnau sydd ar waith, a'u bod yn llofnodi eu bod wedi'u darllen a'u deall fel y bo'n briodol.

Darparwyd dogfen ar gyfer parhad busnes hefyd, ac roedd yn ddogfen fanwl ac roedd yn ymddangos ei bod yn cwmpasu'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau yn briodol. Dywedwyd wrthym, er nad yw'r practis yn defnyddio staff asiantaeth ar hyn o bryd, gan fod y derbynnydd hefyd yn nys roedd yn medru cyflenwi lle bynnag y byddai angen.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion. Gwelwyd tystiolaeth o hyn yn y dogfennau archwilio a ddarparwyd gyda'r hunanasesiad, a oedd yn cynnwys archwiliad cardiau cofnod, archwiliad dadheintio Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, a'r archwiliad diweddaraf Rheoliadau Ymbelydredd Ioneiddio (Cysylltiad Meddygol).

Dywedwyd wrthym fod gan bob aelod o staff fynediad at fanylion yr hyfforddiant y mae angen

⁸ Mae'r datganiad o ddiben yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol yn unol ag Atodlen 1 i'r Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru). Mae hyn yn cynnwys nodau ac amcanion y practis ac enwau a chymwysterau'r deintyddion a'r staff deintyddol. Yn ogystal â hyn, dylai restru'r mathau o driniaeth, y cyfleusterau a'r holl wasanaethau eraill a ddarperir yn y practis deintyddol preifat, gan gynnwys manylion ynglŷn â'r ystod o anghenion y bwriedir i'r gwasanaethau hynny eu diwallu.

⁹ Mae'r daflen wybodaeth i gleifion yn cael ei rhoi i gleifion ac yn cynnwys yr wybodaeth sy'n ofynnol gan Atodlen 2 i'r rheoliadau uchod. Roedd y wybodaeth yn cynnwys crynodeb o'r datganiad o ddiben, trefniadau ynghylch casglu barn cleifion, mynediad i'r adeilad, a chadw apwyntiadau.

iddynt ei gwblhau. Esboniodd yr unigolyn cyfrifol y broses ar gyfer sicrhau bod hyfforddiant yn gyfredol, gyda staff yn parhau i ddefnyddio pecynnau e-ddysgu¹⁰ ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus, yn ogystal â hyfforddiant wyneb yn wyneb yn fewnol.

Eglurwyd y broses o wirio offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys. Dywedwyd wrthym fod y cyfarpar brys a'r meddyginiaethau brys yn cael eu gwirio'n ddyddiol gan aelod penodol o staff, sef yr unigolyn cyfrifol ar hyn o bryd. Cedwid y cyffuriau a'r cyfarpar a ddefnyddir mewn achos brys mewn lleoliad diogel ond sy'n hawdd ei gyrraedd i sicrhau eu bod ar gael yn rhwydd mewn achos brys. Roedd y gwiriad hwn yn cynnwys dyddiadau dod i ben ar yr holl offer a meddyginiaethau a ddefnyddir mewn achos brys, gan gynnwys y diffibriliwr a'r padiau diffibrilio. Mae llyfr archwilio yn cael ei lenwi, a rhoddir "seren goch" wrth ymyl meddyginiaethau sydd â dyddiad dod i ben buan i sicrhau nad yw yn dod i ben.

Mae'r practis wedi cynnal ei brosesau ar gyfer adrodd am unrhyw ddigwyddiadau, gyda'r unigolyn cyfrifol a'r rheolwr cofrestredig yn goruchwyllo unrhyw ddigwyddiadau. Dywedwyd wrthym fod y staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau wrth adrodd am ddigwyddiadau i asiantaethau rheoleiddiol, gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC).

Nodwyd arferion da yn yr hyfforddiant "mewnol" a ddarperir i staff ar adfywio cardio-pwlmonaidd a hefyd atal a rheoli heintiau.

Nodwyd y meysydd canlynol i'w gwella:

Darparodd y practis gofnod o hyfforddiant fel tystiolaeth. Er bod hyn yn cydymffurfio ar y cyfan, nodwyd rhai meysydd hyfforddi ar gyfer staff fel rhai "i'w cynnal yn fuan" neu "yn hwyr". Roedd y diffyg hyfforddiant wyneb yn wyneb yn ystod pandemig COVID-19 wedi cyfrannu at hyn, yn ogystal â staff newydd yn ymuno â'r practis, felly mae'r unigolyn cyfrifol wedi rhoi sicrwydd y bydd cynlluniau i gyflawni cydymffurfedd llawn yn cael eu rhoi ar waith yn gyflym.

Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ac unrhyw hyfforddiant arall y nodwyd bod angen iddynt ei gwblhau yn eu rolau.

Oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi camddehongli, nid oedd y practis yn gallu darparu adroddiad blynyddol fel tystiolaeth ar gyfer y gwiriad ansawdd hwn. Fel unigolyn cyfrifol practis preifat, roedd Rheoliad 23(1) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn berthnasol.

Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol gyflwyno datganiad blynyddol, yn nodi sut mae wedi cyflawni gofynion Rheoliad 23, paragraff (1), ynghyd ag unrhyw gynlluniau ar gyfer gwella safon y gwasanaethau, triniaethau a gofal a ddarperir i gleifion, gyda'r bwriad o sicrhau eu hiechyd, llesiant a diogelwch.

¹⁰ Dysgu a gynhelir trwy gyfryngau electronig, y rhyngwyd fel arfer.

Beth nesaf?

Lle rydym wedi nodi meysydd i'w gwella a phryderon uniongyrchol yn ystod ein gwiriad ansawdd y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn:

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn llunio cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Lle mae angen cynllun gwella, dylai wneud y canlynol:

- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd yn cael sylw digonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth sy'n ofynnol yn erbyn y camau gweithredu a nodwyd yn cael ei darparu i AGIC o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r gwiriad ansawdd hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw'r meysydd i'w gwella yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A - Cynllun gwella ar unwaith

Lleoliad: Canolfan Ddeintyddol
St Teilo

Dyddiad y gweithgarwch:
21 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd angen unrhyw welliannau ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

Atodiad B: Cynllun Gwella

Lleoliad: Canolfan Ddeintyddol
St Teilo

Dyddiad y gweithgarwch:
20 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys gwelliannau a nodwyd yn ystod y gwiriad ansawdd y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn eu cylch, sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Sylwer, disgwylir i'r holl gamau gweithredu gael eu cwblhau o fewn tri mis i'r gwiriad ansawdd a dylid cyflwyno fersiwn derfynol o'r cynllun gwella drwy Objective Connect ar ôl iddo gael ei gwblhau.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1	Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod pob aelod o staff yn cwblhau hyfforddiant gorfodol ac unrhyw hyfforddiant arall y nodwyd bod angen iddynt ei gwblhau yn eu rolau.	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 17(3)(a)	Dr Anne Walker	Wedi'i weithredu. Cofnodion datblygiad proffesiynol parhaus wedi'u diweddarw wedi'u darparu i AGIC
2	Mae'n rhaid i'r unigolyn cyfrifol gyflwyno datganiad blynyddol, yn nodi sut mae wedi cyflawni gofynion Rheoliad 23, paragraff (1), ynghyd	Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 - Rheoliad 23	Dr Anne Walker	Wedi'i weithredu. Darparwyd copi o

	ag unrhyw gynlluniau sydd gan yr unigolyn cofrestredig ar gyfer gwella safon y gwasanaethau, triniaethau a gofal a ddarperir i gleifion, gyda'r bwriad o sicrhau eu hiechyd, llesiant a diogelwch.	(1) Safonau lechyd a Gofal - Safon 3.5 cadw cofnodion		adroddiad Rheoliad 23 i AGIC
--	--	--	--	------------------------------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Dr Anne Walker
Swydd: Unigolyn Cyfrifol
Dyddiad: 27 Gorffennaf 2022